**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau |
| **2** | DATGANIADAU O GYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | YSGOL GATHOLIG NEWYDD ARFAETHEDIG 3 - 16 YN Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac agor Ysgol Gatholig i ddisgyblion 3 – 16 oed newydd;*<br><br>*(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych gau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019; ac Esgobaeth Wrecsam i sefydlu Ysgol Gatholig newydd 3-16 mlwydd oed ar y safle presennol o 1 Medi 2019 ac yn*<br><br>*(c) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | ADNEWYDDU FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cadarnhau'r dull a amlinellwyd o fewn yr adroddiad i gaffael Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru'r genhedlaeth nesaf; a*<br><br>*(b) chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2017**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2016/17 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 4 o 2016/17.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID (ALLDRO ARIANNOL 2016/17) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer 2016/17;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd a balansau wrth gefn fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3 a*<br><br>*(c) nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodwyd yn Atodiad 4.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID (MAI – YN CYNNWYS LLYFR CRYNODEB Y GYLLIDEB 2017/18) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni*. |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*. |